

David Howes  
Prif Swyddog Gwasanaethau Cymdeithasol  
Cyngor Abertawe  
Canolfan Ddinesig  
Heol Ystumllwynarth  
Abertawe  
SA1 3SN

Dyddiad: 04 Dachwedd 2021

Annwyl Gyfarwyddwr,

## **Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC) – Archwiliad Sicrwydd 2021: Cyngor Abertawe**

Mae'r llythyr hwn yn crynhoi canfyddiadau ein archwiliad sicrwydd a gynhaliwyd rhwng 7 Mehefin ac 11 Mehefin 2021. Pwrpas yr archwiliad sicrwydd hwn oedd gweld pa mor dda y mae gwasanaethau cymdeithasol yr awdurdod lleol yn parhau i helpu a chefnogi oedolion a phlant, gan ganolbwyntio ar ddiogelwch a llesiant.

Roedd ein prif lwybrau ymholi yn seiliedig ar bedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ac rydym wedi cofnodi ein barn a'n canfyddiadau yn unol â'r rhain, sef Pobl – Llais a Rheolaeth, Atal, Llesiant, Partneriaethau ac Integreiddio.

### **Trosolwg**

Ym mis Mawrth 2020, gohiriodd AGC ei rhaglen arferol mewn ymateb i bandemig COVID-19 er mwyn galluogi darparwyr ac awdurdodau lleol i ganolbwyntio'n llawn ar ymateb i'r amgylchiadau heriol. Ailddechreuodd rhaglen ddiwygiedig gydag awdurdodau lleol ym mis Medi er mwyn rhoi sicrwydd ynghylch sut mae pobl yn cael eu diogelu a sut mae eu llesiant yn cael ei hybu yn ystod y pandemig. Gwnaethom ystyried diogelwch a llesiant y bobl sy'n defnyddio gwasanaethau, neu y gall fod angen iddynt eu defnyddio, diogelwch y gwasanaethau y maent yn eu defnyddio a diogelwch a llesiant y bobl sy'n gweithio yn y gwasanaethau hynny. Roedd ein prif lwybrau ymholi yn seiliedig ar bedair egwyddor Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, ac rydym wedi cofnodi ein barn a'n canfyddiadau yn unol â'r rhain, sef: Pobl – Llais a Rheolaeth, Atal, Partneriaethau ac Integreiddio, Llesiant.

Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)  
Swyddfa Llywodraeth Cymru  
Sarn Mynach  
Cyffordd Llandudno  
LL31 9RZ  
[www.arolygiaethgofal.cymru](http://www.arolygiaethgofal.cymru)

☎ 0300 790 0126  
✉ [CIW@gov.wales](mailto:CIW@gov.wales)

Care Inspectorate Wales (CIW)  
Welsh Government Office  
Sarn Mynach  
Llandudno Junction  
LL31 9RZ  
[www.careinspectorate.wales](http://www.careinspectorate.wales)

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

## **Gwnaethom ganolbwyntio ar y canlynol:**

1. Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn cyflawni ei swyddogaethau statudol o ran cadw pobl y mae angen gofal a chymorth arnynt a gofalwyr y mae angen cymorth arnynt yn ddiogel, a hybu eu llesiant, yn ystod y pandemig?
2. Beth mae'r awdurdod lleol yn ei wneud fel nad oes angen i blant dderbyn gofal; ac a yw plant yn dychwelyd adref at eu teuluoedd yn ddigon cyflym, lle mae'n ddiogel iddynt wneud hynny?

## **Crynodeb o'r canfyddiadau a blaenoriaethau ar gyfer gwella**

**Pobl – llais a rheolaeth – Gwnaethom ofyn:** Pa mor dda y mae'r awdurdod lleol yn sicrhau bod lleisiau pobl, gofalwyr ac ymarferwyr yn cael eu clywed, eu bod yn gwneud dewisiadau ar sail gwybodaeth ac yn cynnal rheolaeth dros eu bywydau? gan gydbwysu hefyd yr argymhellion a'r gofynion a wnaed gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a Llywodraeth Cymru er mwyn cyfyngu ar ledaeniad COVID-19.

Ar ddechrau'r pandemig, llwyddodd Cyngor Abertawe i adeiladu ar ei systemau gweithio ystwyth sefydledig, gan ddatblygu dulliau rhanbarthol rhagweithiol i gefnogi gwasanaethau rheng flaen a chynllunio camau adfer. Ym maes gwasanaethau oedolion, ehangwyd y capasiti mewn perthynas â'r cynnig gofal canolraddol, gwasanaethau ailalluogi, gwasanaethau o'r ysbyty i'r cartref a gwasanaethau osgoi ysbytai. Trefnwyd capasiti ychwanegol o ran darparu gwasanaethau uniongyrchol, yn enwedig gofal preswyl a gofal cartref, gan gynnwys creu Tîm Cymorth Ychwanegol. Darparwyd mwy o gymorth hefyd i ddarparwyr allanol, mewn perthynas â mewnbwn ariannol, gwasanaethau comisiynu a rheoli heintiau. Ym maes gwasanaethau plant, crëwyd tîm Plant y mae Angen Gofal a Chymorth Arnynt (CINCS) ym mis Tachwedd 2020 er mwyn cynyddu capasiti, yn deillio o bryderon nad oedd rhai unigolion y mae angen gofal a chymorth arnynt yn cael y flaenoriaeth angenrheidiol.

Roedd yr adnodd sgorio Coch Melyn Gwyrdd ar gyfer llwythi achosion o fudd wrth oruchwylio'r lefelau gofynnol o gymorth unigol yn dda, gan ddarparu rhesymeg sylfaenol ar gyfer gwneud penderfyniadau. Gwelsom fod statws Coch Melyn Gwyrdd yn cael ei ddefnyddio i lywio penderfyniadau ynghylch amllder ymweliadau a'r math o ymweliadau, ar ffurf rithwir a wyneb yn wyneb, yn dibynnu ar y risg. Dywedodd staff wrthym sut roeddent wedi defnyddio ffyrdd amrywiol o gadw mewn cysylltiad diogel â phobl drwy gydol y pandemig. Defnyddiwyd cronfeydd ychwanegol a oedd yn gysylltiedig â COVID-19 i gefnogi pobl ifanc yn eu harddegau sy'n agored i niwed gan ddefnyddio ffonau symudol, llechi ac eitemau ychwanegol. Gwnaethom ddysgu bod pobl ifanc yn eu harddegau hŷn a'r rhai sy'n gadael gofal wedi cael mwy o gymorth emosiynol a llesiant, gan gynnwys cymorth gan therapydd iaith a lleferydd. Er y bu heriau sylweddol anochel mewn perthynas â dulliau

cyfathrebu sefydledig, roedd Cyngor Abertawe yn amlwg yn ymrwymedig i sicrhau bod pobl yn cael eu cefnogi i leisio'u barn, a'u bod yn cael y gofal a'r cymorth sydd eu hangen arnynt.

O'r nifer o ffeiliau a adolygwyd a'r cyfweiliadau a gynhaliwyd, roedd yn amlwg bod materion yn ymwneud â chydsyniad, eiriolaeth, galluedd meddyliol a budd pennaf yn cael eu hystyried fel mater o drefn yn gynnar yn y broses ymgysylltu. Gwelsom hefyd dystiolaeth bod plant yn cael cynnig gwasanaethau eirioli, er nad oeddent bob amser yn eu defnyddio. Gwelsom enghreifftiau priodol o aelodau o deuluoedd a gweithwyr cymdeithasol yn eirioli ar ran y bobl. Clywsom fod pobl yn cael cynnig asesiad yn Gymraeg pan fyddent yn cysylltu â Chyngor Abertawe gyntaf a bod dewis iaith yn cael ei gofnodi ar y system electronig. Gwelsom dystiolaeth bod y gweithwyr cymdeithasol yn ymwybodol o anghenion diwylliannol ac anghenion cyfathrebu amrywiol pobl a bod yr anghenion hynny'n cael eu parchu, a bod dehonglwyr (gan gynnwys aelodau o'r teulu) yn cael eu defnyddio yn ôl yr angen.

Er bod y broses ddiweddar o drosglwyddo i gronfa ddata Gwasanaeth Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS) yn sicr wedi bod yn heriol o ran arferion cofnodi, gwelsom fod angen cryfhau lleisiau pobl mewn asesiadau ac wrth gynllunio gofal. Roedd y cynlluniau gofal gorau yn dangos dealltwriaeth ac ystyriaeth drylwyr o gryfderau ac anghenion unigolion, a'r hyn sy'n bwysig iddynt. Fodd bynnag, mewn achosion eraill a adolygwyd, er bod anghenion yn aml yn cael eu nodi, eu dadansoddi a'u hystyried yn fanwl, gwelsom nad oedd llawer i nodi profiadau'r unigolyn o'r cymorth roedd yn ei gael. Ni welsom lawer o dystiolaeth ychwaith o ymgynghori â phobl ynghylch y cymorth roedd ei angen arnynt i gyflawni'r canlyniadau a ddymunwyd ganddynt. Byddai ffocws cliriach ar gryfderau, gan gynnwys llais y defnyddiwr, hefyd yn fuddiol mewn rhai cofnodion. Nodir hyn fel maes i'w wella mewn perthynas â gwasanaethau oedolion a phlant.

Roedd yr asesiadau gofalwyr a adolygwyd yn cynnig dadansoddiad da o'r rôl ofalu, ond nid oedd agweddau ehangach sylweddol bob amser yn cael eu hystyried. Roedd rhai adolygiadau o asesiadau yn hwyr. O ganlyniad, mae'n bosibl na chaiff anghenion newidiol pobl eu hystyried na'u diwallu'n briodol. Clywsom fod gofalwyr wedi bod o dan bwysau sylweddol dros y misoedd blaenorol. Dywedodd grwpiau cymorth gofalwyr wrthym hefyd am ddulliau cyfathrebu a chydbertnasau gwell ag uwch-reolwyr, ond roeddent yn teimlo nad oedd y sefyllfa gyffredinol mewn perthynas ag asesiadau gofalwyr na'r cymorth gyffredinol wedi gwella. Mae angen gwneud gwaith sylweddol i leihau'r bwlch rhwng y profiadau a grybwyllwyd gan gynrychiolwyr gofalwyr, a'r nodau a'r uchelgeisiau a nodwyd yn y strategaeth a'r cynllun gweithredu gofalwyr rhanbarthol a lanswyd yn ddiweddar.

Cafodd y gwaith parhaus i ailstrwythuro elfennau o'r gwasanaethau oedolion ei groesawu'n gyffredinol, er ei fod yn anochel wedi tarfu ar bethau yn ystod y pandemig. Clywsom adborth cadarnhaol gan ymarferwyr am y tîm diogelu pwrpasol. Roedd tîm adolygu hefyd wedi'i sefydlu mewn ymateb i angen a nodwyd i sicrhau gwelliannau yn y maes hwn. Roedd yn rhy gynnar inni wneud sylwadau ar effeithiolrwydd y trefniadau newydd hyn.

Roedd y rhan fwyaf o'r staff a'r rheolwyr y gwnaethom gyfweld â nhw yn gadarnhaol am hygyrchedd rheolwyr a'r cymorth roeddent yn ei gael ganddynt. Clywsom hefyd fod y staff

yn gwerthfawrogi amlygrwydd yr uwch-reolwyr, a'u hyblygrwydd o ran rhoi trefniadau ar waith ar gyfer gweithlu ystwyth, oriau craidd ac wrth ddehongli canllawiau. Cafodd sesiynau briffio rheolaidd gan y cyfarwyddwr ymateb da.

Parhaodd arweinwyr strategol ac aelodau etholedig i oruchwylio effaith y pandemig ar allu Cyngor Abertawe i barhau i ddarparu gwasanaethau, gan gynnwys adolygiadau rheolaidd o berfformiad a data cwynion.

**Atal – Gwnaethom ofyn:** I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn llwyddo i hyrwyddo prosesau atal a lleihau'r angen am fwy o gymorth neu gymorth ffurfiol gan asiantaethau statudol?

Roedd yr achosion Gwybodaeth, Cyngor a Chymorth a adolygwyd yn cynnig tystiolaeth o ymatebion amserol i geisiadau am gymorth, gan gynnwys asesiad gofalwr.

Caiff dull atal Cyngor Abertawe ei ddatblygu ar y cyd a'i gyflawni gan amrywiaeth eang o bartneriaid, gan gynnwys sefydliadau trydydd sector. Clywsom fod y tair Canolfan Cymorth Cynnar cyntaf wedi'u cydleoli, a lanswyd ym mis Ebrill 2020, wedi cael ymateb da gan bartneriaid a phobl eraill. Mae'r canolfannau hyn yn cynnwys staff aml-asiantaeth ac maent yn defnyddio'r fframwaith Arwyddion Llesiant i lywio sgysiau am 'yr hyn sy'n bwysig' wrth y drws ffrynt.

Roedd arwyddion addawol bod y rhain, ynghyd â'r ganolfan ddiogelu integredig, wedi bod yn effeithiol wrth ailgyfeirio pobl i lle mae angen help fwyaf, a lle y bo'n briodol, wrth atal achosion rhag cael eu huwchgyfeirio i wasanaethau statudol. Soniodd partneriaid y trydydd sector am ansawdd uchel cyfarfodydd strategaeth ddiogelu, gan bwysleisio bod y rhain yn canolbwyntio ar yr unigolyn, ac yn mynd ati i ystyried sut y gellid atal achosion rhag cael eu huwchgyfeirio.

Mae Cyngor Abertawe wedi sefydlu paneli amlasiantaethol i gefnogi ei ddull ataliol. Mae'r Panel Gwyro a Derbyn (DAAP) yn canolbwyntio'n sylweddol ar atal achosion rhag cael eu huwchgyfeirio i wasanaethau statudol, fel y bo'n briodol. Gwelsom dystiolaeth o waith ataliol sylweddol, gan gynnwys gwaith uniongyrchol gyda phlant/pobl ifanc, ynghyd â chymorth magu plant, gyda'r nod o gadw plant gartref. Fodd bynnag, mewn rhai achosion, roedd cyfleoedd wedi'u colli i gefnogi pobl yn gynharach. Mewn un achos, bu gwasanaethau ataliol yn gysylltiedig â'r teulu dros gyfnod estynedig, ond o ganlyniad i ddiffyg cydgysylltu a phenderfyniadau allweddol ar gamau hanfodol, methwyd â gweithio'n ddigon dwys gyda'r teulu pan oeddent yn agosáu at sefyllfa o argyfwng. Gwelsom enghreifftiau lle roedd cyfleoedd wedi'u colli i gefnogi oedolion ag anawsterau dysgu a'u teulu yn gynharach. Er bod y rheolwyr yn amlwg yn ymwybodol o'r goblygiadau posibl a bod angen goruchwylio sefyllfaoedd mewn modd rhagweithiol, roedd yr oedi parhaus sylweddol mewn perthynas â nifer mawr o adolygiadau yn golygu y gallai fod gan bobl eraill anghenion cynyddol nad oeddent yn cael eu diwallu.

Ym maes gwasanaethau oedolion, clywsom fod y fenter Rhyddhau i Asesu/Ailalluogi yn sicrhau canlyniadau amserol i unigolion, a'i bod yn cael effaith gadarnhaol o ran sicrhau bod gwelyau ar gael mewn ysbytai. Rhoddwyd systemau digidol ar waith ar gyfer asesu ac adolygu, ac ar gyfer cadw mewn cysylltiad drwy gydol y broses â'r rhai y nodwyd eu bod fwyaf agored i niwed ac yn wynebu risg. Roedd y rhain yn cynnwys darparu hybiau clyfar hawdd eu gosod a chyfarpar arall sy'n galluogi pobl i aros yn ddiogel yn eu cartrefi.

O ystyried y galw cynyddol a chymhlethdod cynyddol achosion wrth y drws ffrynt, clywsom gan rai darparwyr y gallai fod yn anodd cael mynediad i'r Pwynt Mynediad Canolog ar brydiau. Fodd bynnag, roedd adnoddau yn y gymuned wedi cael eu gwella er mwyn helpu unigolion a chymunedau i ateb y galw cynyddol, gan gynnwys niferoedd cynyddol o gydlynwyr ardaloedd lleol, llwybrau atgyfeirio trydydd sector, a mentrau Trechu Tlodi ehangach ym mhob rhan o'r Cyngor. Roedd Cyngor Abertawe yn amlwg wedi gweithio'n galed i ymateb i'r cynnydd sylweddol hwn yn y galw, a dim ond ychydig o ardaloedd a oedd yn wynebu rhestrau aros sylweddol.

Ym mhob rhan o wasanaethau plant ac oedolion, er gwaethaf yr ymdrechion gorau, cydnabuwyd bod yr anallu i gyflawni'r amrywiaeth o ymyriadau arferol a diffyg argaeledd yr ymyriadau hynny, gan gynnwys cyswllt wyneb yn wyneb â phobl, wedi cael effaith andwyol ar ymyriadau ataliol ac ar ddarparu gofal a chymorth i lawer o bobl. Roedd yr uwch-reolwyr yn cydnabod pwysigrwydd ystyried a deall yr effeithiau hyn yn llawn, ac roeddent yn cynllunio i sicrhau y caiff elfennau gorau yr addasiadau i ymarfer eu cynnwys wrth gynllunio gwaith yn y dyfodol mewn perthynas â'r gofynion a ragwelir ar ôl y pandemig. Mae'n galonogol nodi bod Cyngor Abertawe wrthi'n ystyried sut y gellir cynnwys yr arferion gorau wrth ddarparu gwasanaethau yn y tymor hwy.

Yn ddiweddar, mae dull adolygu systemau wedi talu ar ei ganfed o ran gwella gwasanaeth Bays + i'r rheini dros 16 oed. Disgwylir i'r fethodoleg hon gael ei rhoi ar waith dros y misoedd nesaf er mwyn helpu i ddadansoddi effaith y Canolfannau Cymorth Cynnar. Mae'r angen i roi systemau sicrhau ansawdd effeithiol ar waith yn llawn ym mhob rhan o'r gwasanaeth hefyd yn cael ei gydnabod fel un o'r gofynion wrth lywio ymarfer yn y dyfodol, yn ogystal â monitro ansawdd y canlyniadau y mae pobl yn eu profi ar hyn o bryd.

Mae dull cadarn a rhagweithiol Cyngor Abertawe o adolygu, a lle y bo'n briodol, leihau nifer y plant sy'n derbyn gofal, wedi parhau i dalu ar ei ganfed yn ystod y pandemig. Mae nifer y plant a gaiff eu lleoli y tu allan i Gymru hefyd wedi gostwng yn ddiweddar. Roedd y rhan fwyaf o'r bobl ifanc a oedd wedi cael profiad o'r system gofal y gwnaethom siarad â nhw yn gadarnhaol am y lefelau o gymorth a gawsant a'u profiad yn gyffredinol. Dywedodd eraill wrthym y bu'n rhaid iddynt symud i nifer o leoliadau gwahanol dros gyfnod byr.

**Partneriaethau ac Integreiddio – Gwnaethom ofyn:** I ba raddau y gall yr awdurdod lleol fodloni ei hun yr achubir ar gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth mewn ffordd gadarnhaol er mwyn gwneud y mwyaf o gynlluniau sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn a sicrhau y darperir gwasanaethau integredig mewn modd cynaliadwy.

Roedd partneriaid yn gwerthfawrogi'r cyfleoedd ar gyfer gweithio'n agosach a dysgu ar y cyd a hyrwyddwyd gan Gyngor Abertawe yn ystod y pandemig, ynghyd â'i hyblygrwydd, er enghraifft wrth ymestyn contractau gofal cartref. Clywsom adborth cadarnhaol hefyd gan bartneriaid ynghylch parodrwydd Cyngor Abertawe i arloesi a phrofi syniadau newydd lle y nodwyd angen, megis microfentrau mewn ardaloedd lle roedd darpariaeth gofal cartref wedi bod yn anodd ei chynnal.

Clywsom fod partneriaethau wedi cael eu hatgyfnerthu yng Nghyngor Abertawe yn ystod y pandemig. Er enghraifft, trefniadau ar gyfer gweithio'n agosach ag addysg mewn perthynas â phlant agored i niwed. Cyfeiriwyd at y cyfarfodydd sicrhau ansawdd wythnosol a gynhaliwyd gyda phartneriaid diogelu i adolygu risg unigol a nodi patrymau a thueddiadau sy'n dod i'r amlwg fel enghraifft o hyn.

Dywedwyd wrthym hefyd am gyfranogiad rhagweithiol plant a phobl ifanc ym mentrau'r Bwrdd Rhianta Corfforaethol, ac am ddulliau cyd-gynhyrchiol o gymryd rhan mewn prosesau recriwtio a dethol staff diweddar.

Ym maes gwasanaethau oedolion, gwnaethom ddysgu am ymdrechion i ddatblygu mentrau a'u rhoi ar waith, ochr yn ochr ag asiantaethau partner, megis y Fframwaith Uwchgyfeirio Integredig Rhanbarthol, gyda'r nod o wella'r broses o wneud penderfyniadau ymatebol, a'r mesurau ychwanegol a gyflwynwyd i fonitro gweithgaredd, galw a ffactorau risg mewn meysydd â blaenoriaeth. Yn yr un modd, roedd modelau gwell ar gyfer cadw unigolion gartref ac ar gyfer rhyddhau cleifion o'r ysbyty yn gyflym, ynghyd ag ymdrechion i ehangu'r ddarpariaeth 'gofal mwy dwys – gofal llai dwys', wedi galluogi pobl i osgoi cael eu derbyn i'r ysbyty ac wedi helpu i ryddhau unigolion o'r ysbyty yn gyflymach.

Ar lefel unigol, gwelsom enghreifftiau o gydberthnasau gwaith da rhwng gweithwyr proffesiynol o nifer o asiantaethau, a phobl yn cael gofal a chymorth wedi'u cydgysylltu'n dda. Yn yr achosion gorau a welsom, roedd yr ymarfer yn barchus a gwelsom fod y staff yn gwneud ymdrech go iawn i ddeall amgylchiadau'r bobl a'r ffordd orau o gydweithio i'w helpu i gyflawni eu canlyniadau personol. Fodd bynnag, nid oedd cyfleoedd ar gyfer gwaith partneriaeth bob amser yn cael eu defnyddio yn y ffordd orau; mewn rhai o'r achosion a welsom, byddai gweithio mewn partneriaeth agosach gyda'r heddlu a'r gwasanaethau iechyd wedi bod yn briodol.

Mae'r model arwyddion diogelwch, ac yn gynyddol, y model arwyddion llesiant, ar waith yn y gwasanaethau plant a nododd y staff fod hyn yn helpu i sicrhau bod staff a phartneriaid yn defnyddio'r un eirfa a chymorth wrth hyrwyddo dealltwriaeth pobl o'r materion y maent yn eu hwynebu. Gwelsom fod yr ymarferwyr yn hyderus wrth ddefnyddio'r fframwaith hwn a chroesawyd y dull cynhwysol mewn perthynas â chyfarfodydd y Rhwydwaith Teuluoedd ac wrth gynllunio diogelwch yn arbennig gan y teuluoedd y siaradwyd â nhw. Dywedodd darparwyr hefyd fod Cyngor Abertawe wedi chwarae rhan arweiniol wrth ddylanwadu ar

bartneriaid i fabwysiadu dull ymholi mwy gwerthfawrogol/sy'n fwy seiliedig ar gryfderau wrth gyfathrebu â phobl.

Roedd agwedd gadarnhaol tuag at risg a pharodrwydd i arbrofi, arloesi a bod yn greadigol yn amlwg. Roedd yn werth nodi bod asiantaethau partner wedi croesawu'r dull diogelu cyd-destunol a fabwysiadwyd yn ddiweddar gan Gyngor Abertawe, ac o ganlyniad, ei fod yn llwyddo i gysylltu â phobl ifanc gyda'r nod o sicrhau nad oeddent wedi'u hymddieithrio.

Ar lefel strategol, nododd prif swyddogion ac aelodau etholedig ym maes gwasanaethau plant ddiwylliant o weithio mewn partneriaeth, wedi'i gyfoethogi gan lefel uchel o ymrwymiad i'r bwrdd rhianta corfforaethol o bob rhan o'r cyngor ac asiantaethau partner. Mae'r uwch-reolwyr hefyd yn nodi bod cydberthnasau effeithiol rhwng partneriaid, ac roedd yn amlwg bod rhai fforymau gweithredol a strategol a sefydlwyd yn ddiweddar, er enghraifft gyda darparwyr gwasanaethau camddefnyddio sylweddau a gwasanaethau tai, wedi hyrwyddo cydberthnasau gwaith agosach ymhellach. Roedd darparwyr y trydydd sector yn gadarnhaol iawn am gydberthnasau â Chyngor Abertawe, gan nodi bod eu barn yn cael ei gwerthfawrogi'n fawr; disgrifiwyd y gwasanaethau comisiynu a chontractio fel gwasanaethau ardderchog. Clywsom fod gwaith pellach yn mynd rhagddo i hyrwyddo dealltwriaeth ar y cyd o elfennau diogelu ac agweddau eraill, wedi'i ategu gan waith i ddatblygu dogfennau newydd a hyfforddiant ar y cyd, pan fydd amgylchiadau'n caniatáu hynny.

Er inni glywed negeseuon cadarnhaol ar y cyfan gan bartneriaid strategol iechyd a'r rhan fwyaf o gynrychiolwyr y trydydd sector mewn perthynas â gwasanaethau oedolion, roedd rhai hefyd yn teimlo nad oedd adnoddau bob amser ar gael ar lefel strategol i ddatblygu syniadau. Dywedodd ymarferwyr wrthym, er bod y pandemig wedi arwain at fwy o gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth, y bu ffactorau ataliol hefyd. Roedd y rhain yn cynnwys y ffaith bod rhai aelodau o staff yn gweithio gartref tra bod aelodau o staff mewn asiantaethau eraill yn y swyddfa o hyd, a'r ffaith nad oedd asiantaethau gwahanol yn defnyddio'r un llwyfannau rhithwir.

**Llesiant – Gwnaethom ofyn:** I ba raddau y mae'r awdurdod lleol yn hybu llesiant, gan sicrhau bod pobl yn aros yn ddiogel ac yn cyflawni canlyniadau cadarnhaol sydd o bwys iddynt?

Er gwaethaf dull arloesol Cyngor Abertawe ac ymdrechion ganddo i ailddyrranu adnoddau mewn ffordd greadigol ar gam cynnar, cydnabuwyd bod rhestrau aros ar hyn o bryd mewn rhai meysydd o'r ddarpariaeth gwasanaethau i oedolion. Roedd y rhain yn cynnwys dyrannu gwaith cymdeithasol yn y timau asesu cymunedol, ac ar gyfer y gwasanaeth therapi galwedigaethol cymunedol. Er na welsom fod hyn yn cael effaith andwyol yn y nifer bach o achosion a adolygwyd gennym, roedd yn gadarnhaol nodi bod y rheolwyr wedi sefydlu systemau i fonitro, asesu risg ac adolygu statws â blaenoriaeth y bobl hynny sy'n aros am wasanaeth. Gwnaethom nodi hefyd mewn rhai timau gwasanaeth oedolion, bod uwch-ymarferwyr a rheolwyr wedi gweithio'n galed i sicrhau na fyddai pwysau rhestrau aros

yn effeithio ar staff rheng flaen er mwyn sicrhau y gallent barhau i ganolbwyntio ar ddiwallu anghenion y bobl a oedd yn rhan o'u llwyth achosion presennol.

Yn ystod cyfnod o heriau parhaus, roedd yn amlwg bod y staff yn dal i deimlo o dan bwysau sylweddol mewn llawer o dimau. Cadarnhaodd adborth gan staff drwy grwpiau ffocws a chanlyniadau arolygon eu bod yn teimlo eu bod wedi cael cymorth priodol drwy gydol y pandemig. Roeddent yn teimlo bod y pwysau gwaith a oedd arnynt yn cael ei gydnabod a'i ddeall, ac yn gwerthfawrogi bod yr uwch-reolwyr yn meddu ar ddealltwriaeth glir o'r sefyllfa ar y rheng flaen.

Cydnabuwyd yr angen am gymorth a gweithgareddau ymgysylltu ychwanegol i staff a chymerwyd camau i ymateb i hynny drwy raglen llesiant corfforaethol, a oedd yn cynnwys mentrau megis darparu 'cymorth cyntaf seicolegol' ar gyfer gweithwyr rheng flaen. Clywsom hefyd fod mentrau cymorth cymheiriaid a grwpiau cymheiriaid lleol ar lefel timau yn y gwasanaethau plant wedi cael eu gwella ymhellach drwy ddulliau mentora a hyfforddi wedi'u hanelu at staff a oedd newydd eu recriwtio neu staff a oedd newydd gymhwyso. Nododd y rhan fwyaf o'r staff eu bod yn edrych ymlaen at yr adeg pan fyddai'r swyddfeydd yn ailagor, ac y byddent yn croesawu ffordd fwy cyfunol o weithio yn y dyfodol.

O'r ffeiliau y gwnaethom edrych arnynt, cynhaliwyd ymholiadau ac ymchwiliadau diogelu yn unol â gofynion statudol. Roedd materion diogelu yn cael eu hystyried mewn ffordd gynhwysfawr, gan ganolbwyntio nid yn unig ar risg ond gan hefyd ystyried canlyniadau llesiant ac ansawdd bywyd y bobl, a chan ystyried mesurau wedi'u hanelu at atal achosion rhag cael eu huwchgyfeirio. Roedd partneriaid o'r farn bod y penderfyniad i gyflwyno'r tîm diogelu oedolion newydd yn ddiweddar yn ddatblygiad cadarnhaol, ac roeddent yn obeithiol y byddai hyn yn helpu i sicrhau cysondeb wrth wneud penderfyniadau ac yn darparu gwell manylder.

Roedd cyfarfodydd neu drafodaethau strategaeth yn amserol, yn effeithiol ac yn cynnwys yr asiantaethau a'r bobl briodol. Yn gyffredinol, gwnaethom nodi gwaith da o ran dadansoddi risgiau, a oedd yn dangos cydbwysedd priodol rhwng rheoli risgiau a llesiant unigolion, gyda chynlluniau amddiffyn ar waith a chamau'n cael eu cymryd yn ôl yr angen. Gwelsom hefyd fod penderfyniadau allweddol yn cael eu cofnodi'n briodol a threfniadau goruchwylio cadarn gan reolwyr yn y maes hwn.

#### **Dull:**

- gwnaethom fwrw golwg dros y ddogfennaeth a ddarparwyd cyn ein hymweliad
- gwnaethom siarad â phobl a oedd yn derbyn, neu a oedd wedi derbyn, gofal a chymorth, gan gynnwys pedwar person ifanc a oedd wedi gadael gofal
- gwnaethom edrych ar gyfanswm o 25 o ffeiliau achos
- gwnaethom gynnal trafodaethau olrhain achosion ar 10 o ffeiliau achos pellach
- gwnaethom weinyddu wyth arolwg mewn perthynas â phobl â phrofiad o ofal a chymorth, sefydliadau trydydd sector, staff a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol



- gwnaethom gyfarfod â chynrychiolwyr o'r heddlu, addysg, iechyd, darparwyr gwasanaethau a'r trydydd sector

## **Y Camau Nesaf**

Rydym wedi nodi cryfderau a meysydd i'w gwella fel blaenoriaeth, a byddwn yn adolygu cynnydd y meysydd hyn drwy ein cyfarfodydd adolygu gwerthuso perfformiad â'r penaethiaid gwasanaeth a'r cyfarwyddwr. Rydym yn disgwyl y bydd y meysydd i'w gwella a nodwyd gennym yn cael eu cynnwys yng nghynlluniau gwella'r awdurdod lleol. Hoffem ddiolch i bawb a wnaeth ein helpu i gynnal yr archwiliad sicrwydd hwn ac i'r bobl a'r staff hynny a siaradodd â ni.

Gweler ein Hysbysiad Preifatrwydd yn <https://arolygiaethgofal.cymru/sut-rydym-yn-defnyddioch-gwybodaeth-bersonol>

Yn gywir,



**Lou Bushell-Bauers**

Pennaeth Arolygu Awdurdodau Lleol  
**Arolygiaeth Gofal Cymru**